O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 1348 (Cy. 164)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Red House Bends, Cwm-bach, Powys) (Gwahardd Dros Dro Gerbydau, Beicwyr a Cherddwyr) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Mai 2011* |
| *Yn dod i rym* | *6 Mehefin 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r drafford oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mehefin 2011. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Red House Bends, Cwm-bach, Powys) (Gwahardd Dros Dro Gerbydau, Beicwyr a Cherddwyr) 2011.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("works period") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20.00 o'r gloch ar 6 Mehefin 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud oddi yno'n derfynol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.**Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feiciau pedal neu feiciau tair olwyn, na pheri i unrhyw feiciau o'r fath gael eu reidio, ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.**Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff unrhyw gerddwr, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar hyd y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Mai 2011.

***Gareth Morgan***

**G MORGAN**

Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith

Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

Y darn hwnnw o Gefnffordd Caerdydd - Llangurig (yr A470), a enwir yn lleol yn Red House Bends, sy'n ymestyn o bwynt 396 o fetrau i'r gogledd o Bont Rheilffordd Cwm-bach i bwynt 799 o fetrau i'r gogledd o Bont Rheilffordd Cwm-bach, wrth gyffordd Maes Carafannau Parc Caerwnon, yn Sir Powys.